Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Lydia Thomas**

**Llandeilo**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroc heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/04/2019

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am hyd at 10 o blant o dan 12 oed. Mae'n gweithredu ei gwasanaeth o'i chartref ger Llandeilo ac yn cynnig gofal hyblyg. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8.00am a 6.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth ond caiff y Gymraeg ei defnyddio hefyd.

## Crynodeb

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus yng ngofal y gwarchodwr plant ar y cyfan. Mae'r plant yn ddiogel ac yn hapus mewn amgylchedd y maent yn gyfarwydd ag ef ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u cyfoedion. Mae'r amgylchedd yn addas ond mae angen gwneud rhai gwelliannau. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau da â'r rhieni ac mae'n rheoli ei gwasanaeth yn briodol ar y cyfan er bod angen gwneud rhywfaint o welliannau.

### 2. Gwelliannau

Dim

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu'r gwarchodwr plant o'r gwelliannau sydd eu hangen mewn perthynas ag ymarferion tân fel mesur diogelwch tân (rheoliad 38) a chadw cofnodion er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth y tro hwn gan nad oedd unrhyw effaith na risg sylweddol i blant. Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i unioni hyn a byddwn yn edrych ar y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom sawl argymhelliad a chaiff y rhain eu rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn cael budd o'r gweithgareddau a'r cyfleoedd a gynigir iddynt. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant a'i theulu. Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn hapus ac wedi setlo yng ngofal y gwarchodwr plant. Roeddent yn rhyngweithio'n briodol ac maent yn mwynhau dysgu ar y cyfan. Mae gan y plant ddewis yn y gwasanaeth hwn ac mae eu lleisiau'n cael eu clywed. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu dewis lliw'r ffedog roeddent am ei gwisgo. Mae gan y plant gydberthynas agos â'r gwarchodwr plant ac maent yn gyfforddus yn ei gofal. Aeth y plant at y gwarchodwr plant i gael maldod ac nid oedd un plentyn am adael ar ddiwedd y sesiwn gan ei fod yn mwynhau. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol.  Fodd bynnag, mae nifer fach o'r plant yn cael mwy o drafferth i setlo ar adegau ond maent yn ymateb i'r cysur a roddir iddynt gan y gwarchodwr plant. Roedd y plant yn dysgu i gydweithredu a gwelsom y plant hŷn yn chwarae gyda'i gilydd ac yn rhannu adnoddau. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i blentyn arall a oedd am gael diod. Roedd y plant iau yn dueddol o chwarae yn annibynnol, er y gwelsom blant o wahanol oedrannau yn paentio gyda'i gilydd. Gwelsom un plentyn yn ymateb yn garedig iawn i blentyn llawer iau. Roedd y plant yn cynnal eu diddordeb ac yn dangos eu bod yn mwynhau yn ystod rhai gweithgareddau. Mae gan y plant rywfaint o ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn a wnânt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd yn ystod ein hymweliad, megis dawnsio a chwarae gyda blociau adeiladu. Gwnaeth y plant ddyfalbarhau am beth amser â'u gweithgareddau, gan gynnwys adeiladu tŵr o flociau a phaentio. Gwnaeth y plant fwynhau paratoi eu pizzas i ginio yn fawr a gwnaethant eu bwyta i ginio ar ôl iddynt gael eu coginio.

Roedd y plant yn cynnal eu diddordeb yn eu chwarae ar y cyfan, yn cyfathrebu'n briodol a'r gwarchodwr plant ac yn gwrando arni wrth iddi roi cyfarwyddiadau cadarnhaol iddynt. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn dacluso'r teganau ar ôl i'r gwarchodwr plant ei annog i wneud hynny. Roedd y plant yn cyd-chwarae yn gyfforddus. Er enghraifft, gwnaeth pob plentyn ymateb yn dda i gêm o 'musical statues'. Gwelsom y plant hŷn yn chwarae'n garedig ac yn ofalgar â'r plant iau.

## 2. Gofal a Datblygiad

**Crynodeb**

Mae gan y gwarchodwr plant systemau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau y gall gynnig gwasanaeth priodol i'r plant sydd yn ei gofal. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chadw cofnodion. Roedd yn rhyngweithio'n dda â'r plant ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Darparodd y gwarchodwr plant weithgareddau priodol i'r plant ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu. Roedd rhywfaint o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ar y cyfan a chaiff eu llesiant ei hyrwyddo. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig cyfredol ac mae wedi trefnu lle ar gwrs i ddiweddaru ei hyfforddiant gan fod ei thystysgrif gyfredol ar fin dod i ben. Mae polisi diogelu ar waith, ond nid yw'n cynnwys y manylion cyswllt cywir ac nid oedd yr hyfforddiant diogelu wedi'i ddiweddaru ers peth amser. Yn ystod yr arolygiad, roedd y gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran amddiffyn plant ar y cyfan. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi cwblhau hyfforddiant dyletswydd atal ar-lein yn dilyn yr arolygiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y gwarchodwr plant yn dangos pwysigrwydd hylendid ar y cyfan gan sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd. Er bod y gwarchodwr plant yn golchi ei dwylo yn rheolaidd, roedd rhywfaint o anghysondebau ar adegau. Er enghraifft, ar ôl rhoi mwythau i'r gwningen, ni wnaeth y gwarchodwr plant olchi ei dwylo cyn rhoi llaeth i blentyn. Cafodd y plant amrywiaeth o brydau a oedd yn cynnwys tost, cramwythod, olwynion tomato a ffrwythau fel byrbrydau a chyri cyw iâr llawn ffrwythau a chyw iâr rhost i ginio. Cafodd y plant ddiodydd yn ystod amseroedd bwyd ond nid oedd dŵr yfed ffres ar gael i'r plant ar bob adeg yn ystod yr arolygiad.

Roedd gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad ar waith a oedd yn nodi sut y byddai'n ymateb i unrhyw ymddygiad amhriodol ac yn ymdrin ag ef. Roedd y gwarchodwr plant yn dilyn y polisi ac roedd y plant yn glir ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir yn y lleoliad. Roedd yn ymatebol i farn y plant ac yn eu parchu. Ar y cyfan, roedd y rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Roedd y gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio'n dda ac yn cynnig canmoliaeth a geiriau caredig er mwyn atgyfnerthu ymddygiad da. Roedd ei dull yn ddigynnwrf a defnyddiodd amrywiaeth dda o ddulliau i dynnu eu sylw er mwyn atal unrhyw ymddygiad diangen.

Roedd y gwarchodwr plant yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft, roeddent yn gallu creu eu pizzas eu hunain a darparwyd amrywiaeth o gynhwysion i'r plant ddewis ohonynt. Fodd bynnag, roedd rhai cyfleoedd yn cael eu colli yn ystod amser byrbryd.

Rhoddodd y gwarchodwr plant wybod i'r rhieni ar lafar am lesiant cyffredinol y plant ar ddiwedd y dydd. Cadwodd ddyddiaduron dyddiol ar gyfer y plant iau ond nid oedd y cofnodion mewn perthynas â'r bwyd a fwytawyd yn fanwl iawn. Nid yw'r gwarchodwr plant yn dilyn unrhyw gofnodion cynllunio ffurfiol ar hyn o bryd ac eglurodd ei bod yn dilyn diddordebau'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn briodol ar gyfer y plant yn ei gofal. Mae'r ystafell chwarae yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol i'r plant a chaiff y gegin ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau chwarae blêr a choginio. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag asesiadau risg.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y gwarchodwr plant asesiadau risg ar waith gan gynnwys y defnydd o'r car ar gyfer mynd â'r plant i'r ysgol a'u cludo oddi yno, anifeiliaid a'r ystafell chwarae. Fodd bynnag, ni chawsant eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd bwyd y mochyn cwta wedi'i osod o flaen y cwt er bod yr asesiadau risg yn nodi bod angen iddo gael ei gadw yn y cefn, fel na allai'r plant gael gafael arno. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hi'n cynnal gwiriadau gweledol o'r amgylchedd yn ddyddiol. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus canolog cymwys ar waith a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y boeler wedi'i wasanaethu yn ddiweddar er nad oedd y dystysgrif ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd gan y gwarchodwr plant lyfr ymwelwyr ar waith. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, roedd y drws ffrynt wedi'i adael heb ei gloi ar rai adegau, a gallai hyn arwain at fynediad heb awdurdod a'r plant yn gadael y cartref. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn gwirio'r larwm tân yn rheolaidd ond nad oedd yn cadw cofnodion. Roedd datganiad o'r weithdrefn i'w dilyn os bydd tân neu ddamwain. Roedd gan y gwarchodwr plant gloeon diogelwch ar y cypyrddau yn y gegin er mwyn sicrhau na allai'r plant gael gafael arnynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnod o bresenoldeb y plant ond nid oedd yn nodi eu hamser cyrraedd a gadael yn gyson a dim ond enwau cyntaf y plant a gofnodwyd.

Roedd polisi anifeiliaid anwes ar waith, ond ni chafodd bwyd y mochyn cwta ei adael yng nghefn y cwt fel y nodir yn y polisi. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn glanhau cwt y gwningen a'r mochyn cwta yn rheolaidd a'i bod yn mopio llawr y gegin yn ddyddiol ond nid oedd yn cofnodi gwiriadau dyddiol na chofnodion glanhau. Nid oedd y polisi anifeiliaid anwes a phlant yn ddigon manwl o ran materion yn ymwneud â hylendid.

Mae ardal chwarae fawr yn yr awyr agored sy'n cynnig rhywfaint o gyfleoedd i'r plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod ganddi gynlluniau i ddatblygu'r ardal awyr agored ymhellach a nodwyd hyn yn yr adroddiad o Ansawdd y Gofal.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau ar waith. Fodd bynnag, mae lle i wella. Mae'n cydweithio'n agos â'r rhieni a'r gofalwyr ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cydweithio.

### Ein canfyddiadau

Yn dilyn cyfnod yr ymweliad, gwnaethom dderbyn datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru a oedd yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a gallai'r rhieni gael gafael arno, yn ogystal â'r polisïau a'r gweithdrefnau. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys cyfeiriad y gwarchodwr plant. Yn gyffredinol, roedd contractau'n cael eu trafod a'u rhannu â'r rhieni, gan nodi disgwyliadau'r ddau barti a gofynnwyd am ganiatâd ar gyfer gweithgareddau megis teithiau, defnyddio eli haul a derbyn triniaeth feddygol mewn argyfwng. Roedd polisïau ar waith a chafodd y rhan fwyaf ohonynt eu rhoi ar waith er bod angen gwneud rhywfaint o fân newidiadau i'r polisi amddiffyn plant ac anifeiliaid anwes. Roedd y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys yn ogystal â'r ddogfennaeth yswiriant cerbyd, treth ac MOT.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ar y cyfan, roedd y gwarchodwr plant yn cadw'r holl ddogfennau perthnasol yn drefnus. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ddogfennau ar gael yn hawdd. Er enghraifft, roedd wrthi'n casglu'r dogfennau yswiriant o'r cyfrif e-bost ac nid oedd y dogfennau ar gyfer gwasanaethu'r boeler ar gael. Nid oedd adroddiad o ansawdd y gofal ar gael yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd y gwarchodwr plant wedi paratoi adroddiad ar ansawdd y gofal yn ystod y broses arolygu ac wedi rhoi copi i Arolygiaeth Gofal Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn adlewyrchu ymatebion y rhieni a'r plant yn llawn ac felly nid oedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r adolygiad yn llawn.

Roedd y gwarchodwr plant wedi datblygu cydberthynas dda â'r rhieni. Gwnaeth y rhieni ganmol y gwarchodwr plant yn ystod yr arolygiad ac roedd yr holiaduron a dderbyniwyd gan y rhieni hefyd yn gadarnhaol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol:

- datblygu sgiliau annibyniaeth y plant ymhellach;
- sicrhau y caiff holl gofnodion yr asesiadau risg eu diweddaru a'u dyddio yn briodol;
- diweddaru'r polisi amddiffyn plant a'i hyfforddiant;
- sicrhau bod yr adroddiad ar ansawdd y gofal yn adlewyrchu'r gwasanaeth;
- cynnwys mwy o fanylion yn y dyddiaduron dyddiol;
- sicrhau bod drws y brif fynedfa wedi'i gloi bob amser;
- sicrhau y caiff enwau'r holl blant eu cofnodi yn llawn a bod amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn yn cael eu cofnodi'n gyson;
- ehangu ar y polisi anifeiliaid anwes;
- anfon y Datganiad o Ddiben ymlaen i AGC bob tro y caiff ei ddiweddaru;
- sicrhau bod yr arferion hylendid yn gyson
- dilyn polisi Bwyd a Maeth newydd Llywodraeth Cymru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd arolygiad dirybudd o'r gwasanaeth ar 3 a 5 Ebrill 2019. Gwnaethom roi adborth dros y ffôn ar 8 Ebrill 2019.

Gwnaethom y canlynol:

- cael trafodaethau â'r gwarchodwr plant am ei gwasanaeth;
- arsylwi'r plant a'r gofal a roddwyd iddynt;
- edrych ar ystod eang o gofnodion gan gynnwys cofnodion y plant, polisïau'r gwarchodwr plant, cofnodion diogelwch a'r datganiad o ddiben
- archwilio'r safle.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Lydia Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **Hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **7.30am-5.30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru yn 2018.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **3 a 5 Ebrill 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | ***Mae'r darparwr yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg*** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/08/2019